# PWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 6 TACHWEDD 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mackie(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Goddard, Lancaster, Robson, Taylor a/ac Wood |

## 12 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Ali, Murphy a Williams.

## 13 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 14 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 7 Awst, 16 Awst, 4 Medi ac 2 Hydref 2018 yn gofnod cywir gan y Pwyllgor, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

## 15 : CAIS AM GERBYD MAWREDDOG

PENDERFYNWYD – Gwrthod y cais i gymeradwyo Vauxhall Zafira fel cerbyd mawreddog gyda chyfyngiad oedran 10 mlynedd.

## 16 : CYFLWYNIAD GAN GRŴP MYNEDIAD HAWLIAU ANABLEDD

Croesawodd y Cadeirydd i'r cyfarfod Nathan Foy a Charlie Dale gan Gŵn Tywys i Bobl Ddall, Stuart Parkinson, Ymddiriedolwr, Canolfan Pobl Fyddar Caerdydd a Rob Gravelle gan y Tîm Seilwaith a Gweithrediadau, y Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, Cyngor Caerdydd. Cafodd y rhai presennol eu gwahodd i annerch y Pwyllgor ar faterion cyffredinol o ran hygyrchedd i bobl anabl a'u profiadau yn defnyddio tacsis a cherbydau llogi preifat yn y Ddinas.

Dywedodd Nathan Foy ei fod yn y cyfarfod mewn rôl bersonol fel defnyddiwr gwasanaethau dall ond hefyd ei fod yn cynrychioli defnyddwyr gwasanaeth dall a rhannol ddall eraill yn ei rôl fel Swyddog Ymgysylltu i Gŵn Tywys i Bobl Ddall. Nodwyd i aelodau mai'r un broblem fwyaf a oedd yn effeithio ar bobl ddall a rhannol ddall oedd bod rhai gyrwyr yn gwrthod cymryd cŵn tywys mewn cerbydau trwyddedig.

Yn ôl Nathan, nid oedd pob gyrrwr yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau ynglŷn â chludiant cŵn tywys.

Awgrymwyd ei bod yn bosibl i'r rhai o'r problemau hyn fod yn ddiwylliannol neu efallai bod rhai gyrwyr nad oeddent yn gyfarwydd â'r ffaith y defnyddir cŵn i dywys pobl ac felly nid ydynt yn gwneud y cysylltiad.

Fodd bynnag, ni waeth am y rheswm, roedd yr achosion o wrthod cludiant yn rhy gyffredin.

Hefyd, nododd Nathan y gall fod angen cymorth ychwanegol ar bobl ddall a rhannol ddall i fynd i mewn i dacsi a hefyd wrth gyrraedd pen eu taith.

Dywedwyd wrth yr aelodau yr argymhellir i ddefnyddwyr gwasanaeth dall a rhannol ddall y dylent nodi eu bod yn bwriadu dod â chŵn tywys gyda nhw wrth archebu cerbydau llogi preifat. Fodd bynnag, profiad nifer fawr o bobl yw bod hyn yn arwain at oedi hir ac o ganlyniad mae llawer ohonyn nhw nad ydynt yn rhoi rhybudd ymlaen llaw. Yn debyg, gydag apiau tacsi, os bydd defnyddwyr gwasanaeth yn rhoi rhybudd eu bod yn dod â chi tywys gyda nhw, nid yw'r gyrwyr yn derbyn y gwaith.

Mae achlysuron wedi bod pan fo gyrwyr yn mynnu bod alergedd cŵn gyda nhw, ond nid ydynt yn dangos tystiolaeth feddygol am hyn. Dywedwyd wrth yr aelodau bod hyn wedi digwydd yn ddiweddar yng Nghaerdydd. Anfonwyd car arall.

Nododd Nathan, ar un o'i deithiau diwethaf y'i gwnaed gyda'i wraig, fy gyrrwr wedi rhoi £2 yn ychwanegol ar ben y ffi ar y mesurydd. Gofynnodd ei wraig pam y codwyd ffi ychwanegol. Cred y gyrrwr oedd bod ganddo'r hawl i wneud hyn. Codwyd pryderon na fydd pobl ddall neu rannol ddall yn ymwybodol pan godir ffioedd ychwanegol arnynt. Yn ogystal â hynny, nododd Natahn Foe ei fod yn gwybod am un defnyddiwr gwasanaeth sy'n ddall sy'n defnyddio cerbydau llogi preifat yn rheolaidd i wneud yr un siwrneiau. Mae'r person yn ymwybodol pan godir tal ychwanegol arni ond mae'n penderfynu peidio i herio'r gyrwyr oherwydd bod angen y gwasanaeth arni ac nad yw hi'n dymuno achosi trafferth. Yn yr achos hwn, cysylltodd Cŵn Tywys i Bobl Ddall â'r cwmni llogi preifat dan sylw i'w atgoffa am ei rwymedigaethau.

Clywodd aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i orfodi yr holl yrwyr i gwblhau hyfforddiant cydraddoldeb i anableddau. Mae hyn yn rhywbeth y mae Cŵn Tywys i Bobl Ddall wedi bod yn ymgyrchu drosto ers peth amser ac ystyriwyd y byddai hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r rheiny yr effeithir arnynt. Barn Nathan oedd nad oedd y cymhwyster BTEC, sy'n ofynnol i yrwyr Caerdydd, yn canolbwyntio ar broblemau cydraddoldeb anableddau yn ddigonol a bod angen hyfforddiant pwrpasol.

Wrth ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor, dywedodd Nathan mai yng Nghaerdydd y mae mwyafrif y problemau mynediad at dacsis a cherbydau llogi preifat yng Nghymru, ond hefyd mai Caerdydd yw'r ddinas â'r boblogaeth fwyaf. Yn ei brofiad ef, ni adroddir ar y rhan fwyaf o'r digwyddiadau.

Cadarnhaodd Rob Gravelle fod fforwm yn bodoli ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a bod swyddogion trwyddedu yn ymgynghori â nhw yn aml iawn. Nododd Rob ei fod

wedi methu sicrhau presenoldeb defnyddiwr cadair olwyn yn y cyfarfod i gyfrannu at y drafodaeth, er ei ymdrechion caled. Nododd yr holl ddefnyddwyr cadeiriau olwyn yr aeth ef atynt, nad ydynt yn defnyddio tacsis mwyach oherwydd y problemau y maent wedi eu cael. Yn ôl Rob, roedd cyfle economaidd yn bodoli ar gyfer y cwmnïau llogi preifat, gan fod nifer sylweddol o bobl y Ddinas yn ystyried bod ganddynt anabledd. Roedd problem arall hefyd, ynglŷn â gwasanaeth cwsmeriaid, y gall fod angen mynd i'r afael â hi, sef diffyg gwybodaeth, efallai oherwydd rhesymau diwylliannol a chrefyddol, bod cŵn tywys yn gŵn sy'n gweithio ac nid yn anifeiliaid anwes.

Derbyniodd y Pwyllgor sylwadau gan Stuart Parkinson gan Ganolfan Pobl Fyddar Caerdydd. Rhoddwyd gwybod i aelodau fod Stuart yn cyfathrebu drwy iaith yr arwyddion yn bennaf, ac er ei fod yn gallu siarad yn dda, mae ef yn hollol fyddar. Rhannodd Stuart stori am daith pan gymerodd y gyrrwr lwybr hirach nag yr oedd angen iddo a arweiniodd i ffi uwch am y daith ar gyfer Stuart. Nid oedd yn bosibl trafod y mater â'r gyrrwr oherwydd problemau cyfathrebu – gan nad oedd Saesneg y gyrrwr yn dda ac nad oedd yn gwybod iaith yr arwyddion. Nododd Stuart ei fod yn ystyried teithio mewn tacsi yn fath o drafnidiaeth gyhoeddus sy'n achosi straen ac sy'n ddrud. Clywodd aelodau hefyd stori am yr achos pan ddaeth Cadeirydd corff cynrychiolwyr iaith arwyddion sy'n gydnabyddedig yn genedlaethol i Gaerdydd ac ni lwyddodd i ddod o hyd i dacsi i fynd ag ef i'r YHA ac o ganlyniad roedd yn rhaid iddo gerdded yno. Yn ôl Stuart, nid yw digwyddiadau fel hyn yn rhoi enw da i'r ddinas.

Cafodd yr app Dragon Taxi groeso cynnes ac mae'n gweithio'n dda oherwydd nad oes angen siarad. Awgrymodd Stuart y gallai efallai technoleg megis codau QR gael ei defnyddio'n well. Mae'n dal i gael trafferthion pan nad oes wifi ar gael, sy'n arwain iddo orfod gofyn i bobl ddiarth i archebu tacsi iddo ar y ffôn. Mae hwn yn brofiad negyddol yn ei farn , oherwydd ei fod yn hoffi bod yn annibynnol.

Gofynnodd aelodau sut y gall y Pwyllgor a'r Cyngor fod o gymorth i wella mynediad at y gwasanaeth ar gyfer pobl anabl. Roedd Stuart yn credu bod angen hyfforddiant ymwybyddiaeth o fyddarwch, yn enwedig o ran y rhwystrau cyfathrebu y mae pobl fyddar yn eu hwynebu. Canmolodd Rob Gravelle a Nathan Foy y Marsialiaid Tacsi, sy'n darparu gwasanaeth rhagorol ac yn chwarae rhan gwarbin mewn ymgysylltu gyrwyr a defnyddwyr gwasanaeth sydd â nam ar y golwg. Cytunodd Nathan y gall defnyddio gwelliannau mewn technoleg fod o gymorth hefyd. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor i gael gwared ar rwystrau wrth y ffynhonnell drwy wella'r pwyslais ar wasanaeth i gwsmeriaid.

Diolchodd yr aelodau i'r rhai oedd yn bresennol am y cyflwyniad a daflodd oleuni ar y sefyllfa. Gofynnodd aelodau p'un ai a oedd yn briodol cael adroddiad gan Bwyllgor Craffu neu i Grŵp Gorchwyl a Gorffen graffu ar y mater hwn yn fanylach. Gofynnodd aelodau hefyd p'un ai a yw'r Grŵp Mynediad Hawliau Anabledd yn rhannu platfform â'r Fforwm Gyrwyr Tacsis. Cadarnhaodd swyddogion fod rhagor o waith i'w wneud, er y gwahoddwyd gweithredwyr i drafod y mater ag aelodau o'r Grŵp Mynediad Hawliau Anabledd.

Ar ran y Pwyllgor, diolchodd y Cadeirydd i'r rhai oedd yn bresennol am ddod i'r cyfarfod a chyflwyno eu profiadau i Aelodau'r Pwyllgor.

## 17 : YSTYRIED DEFNYDDIO GWYDR TYWYLL MEWN ACHOSION CERBYDAU TRWYDDEDIG

Ar 3 Gorffennaf 2018, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ar a ddylid dileu’r amod trwyddedu cerbydau sy’n cyfyngu ar y defnydd o wydr tywyll. Penderfynodd y Pwyllgor ganiatáu'r defnydd o wydr tywyll ar yr amod y gosodir system teledu cylch cyfyng a gymeradwyir gan y Cyngor yn y cerbyd hwnnw

Ystyriwyd adroddiad dilynol gan y Pwyllgor yn ystod y cyfarfod ar 7 Awst 2018. Eglurodd yr adroddiad fod angen sicrhau bod unrhyw system teledu cylch cyfyng yn cydymffurfio â’r holl ofynion cyfreithiol. Penderfynodd y Pwyllgor ohirio newid yr amod trwyddedu cerbydau nes y cymeradwyir meini prawf manyleb y systemau teledu cylch cyfyng.

Yn dilyn adolygiad o ganllawiau Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth a’r Swyddfa Gartref, argymhellodd swyddogion i aelodau ystyried yr amod sy'n gofyn am osod system teledu cylch cyfyng ymhellach er mwyn sicrhau bod yr amod yn gyfreithlon.

Datblygwyd Cod Ymarfer Diogelu Data ar gyfer Camerâu Gwyliadwriaeth a Gwybodaeth Bersonol gan Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth gyda’r nod o esbonio'r gofynion cyfreithiol sy’n berthnasol i'r defnydd o systemau teledu cylch cyfyng ac i hyrwyddo arfer da. Mae’r Cod yn nodi y dylid cwblhau asesiad o effaith ar breifatrwydd ac y dylid seilio’r asesiad ar dystiolaeth ddibynadwy a dangos p'un a ellir cyfiawnhau'r teledu cylch cyfyng arfaethedig fel cam sy'n cyfateb i'r anghenion a nodwyd.

Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf edrychodd y Pwyllgor ar p’un ai a fydd risg uwch posibl i ddiogelwch y cyhoedd/gyrrwr oherwydd dileu’r cyfyngiad ar wydrau tywyll a fydd yn cyfiawnhau'r defnydd o deledu cylch cyfyng gorfodol. Adroddodd y Pwyllgor ym mis Gorffennaf nad oedd tystiolaeth yn nodi y byddai dileu'r amod am wydr tywyll yn cynyddu’r pryderon diogelwch. Dyfynnwyd Arolygydd gan Heddlu De Cymru yn dweud:

*‘Dydw i ddim yn credu bod gennym ni unrhyw waith seiliedig ar dystiolaeth/dadansoddol wedi’i gwblhau ynglŷn â throseddau neu bryderon diogelwch o ran defnyddio gwydr tywyll. Rwy’n credu y byddai’n anodd codi unrhyw wrthwynebiadau dilys oherwydd hyn a gan y caiff y gwydr ei ffitio yn ystod cam gweithgynhyrchu’r cerbyd.’*

Rhoddwyd gwybod i aelodau bod Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth wedi adolygu, yn ddiweddar, bolisïau mewn nifer o Gynghorau lle y gofynnwyd am systemau teledu cylch cyfyng yn rhan o’r amodau trwyddedu. Mae hi wedi ei gwneud yn glir bod angen sail dystiolaeth gadarn er mwyn cyfiawnhau'r Polisi a bod yn rhaid adolygu’r Polisi yn rheolaidd, yn enwedig pan ddefnyddir recordio sain yn ogystal â chamerâu. Mae’r gyfraith yn glir hefyd fod yn rhaid i’r defnydd o deledu cylch cyfyng a recordio sain mewn tacsis fod yn gyfatebol i’r risg a geir, a bydd angen i Gynghorau gyflwyno cyfiawnhad clir o ran pam y maent yn credu bod angen recordio fideo a sain os yw'n berthnasol.

Mae gwaith manwl sy’n edrych ar y defnydd o deledu cylch cyfyng ar gyfer yr holl gerbydau trwyddedig nad yw wedi'i gynnal eto. Byddai unrhyw waith o’r fath yn gofyn am sail dystiolaeth yn rhan o'r asesiad o effaith ar breifatrwydd. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth ar hyn o bryd yn cefnogi’r gofyniad gorfodol am osod teledu cylch cyfyng mewn cerbydau â gwydrau twyll. Gallai’r gofyniad hwn arwain at i Swyddfa'r

Comisiynydd Gwybodaeth farnu bod y defnydd o deledu cylch cyfyng yn yr amgylchiadau hyn yn anghymesur ac y gellir ei herio'n gyfreithiol.

Cynhaliwyd y weithdrefn ymgynghori fasnachol yn unol â’r weithdrefn ymgynghori ar unrhyw fater polisi. Mae manylion yr ymatebion i’r ymgynghoriad wedi eu hatodi i’r adroddiad yn Atodiad B.

Gofynnwyd i aelodau ystyried disodli'r amod drwy adolygu'r geiriad neu gadw'r amod gwreiddiol. Trafodwyd y mater gan y Pwyllgor.

Gofynnodd aelodau pa awdurdodau sy’n gweithredu gydag amod tebyg. Nododd swyddogion bod ychydig o awdurdodau yn gweithredu amod o’r fath ond roedd Manceinion, Leeds a Chaerffili. Nododd aelodau fod gan Gyngor Caergrawnt system teledu cylch cyfyng orfodol a gwnaethant ofyn i swyddogion p'un ai a ydyn nhw wedi cael tystiolaeth gan y cyngor hwnnw. Nododd swyddogion nad ydyn nhw wedi ymgynghori â Chyngor Caergrawnt ond eu bod wedi ystyried Canllawiau Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth ar deledu cylch cyfyng sy’n nodi bod yn rhaid cael sail dystiolaeth wrth wneud ei ddefnydd yn ofynnol.

Cadarnhaodd swyddogion nad yw defnyddwyr gwasanaeth wedi eu cynnwys yn yr arolwg ac ni wnaed gwaith ymchwil ynglŷn â'r cysyniad o ddiogelwch a p’un a oedd teithwyr yn teimlo’n llai diogel mewn cerbydau â gwydr tywyll. Nododd swyddogion fod cerbydau yn gweithredu yn y ddinas sydd wedi eu trwyddedu gan awdurdodau eraill. Nid oedd tystiolaeth yn awgrymu bod aelodau o’r cyhoedd yn teimlo’n llai diogel yn y cerbydau hynny. Yn wir, nododd Dragon Taxis fod defnyddwyr cadeiriau olwyn y GIG yn ffafrio cerbydau â gwydr tywyll.

Nododd y Swyddog Cyfreithiol bod y goblygiadau cyfreithiol fel y’u nodir yn yr adroddiad, yn ei gwneud yn glir iawn na all yr awdurdod fynd rhagddo gyda'r penderfyniad i wneud teledu cylch cyfyng yn ofyniad gorfodol mewn cerbydau sy'n defnyddio gwydr tywyll. Gofynnwyd felly i aelodau ystyried p’un ai a ydynt yn dymuno caniatáu’r defnydd o wydr tywyll neu beidio a bod risg o herio cyfreithiol os bydd y Pwyllgor yn penderfynu parhau gyda’r sefyllfa bresennol.

Gofynnwyd i’r Pwyllgor ystyried gwaredu neu gadw’r amod presennol ar drwyddedu cerbydau. Cynhaliwyd pleidlais. Roedd tri aelod yn gefnogol o gadw’r amod presennol, cefnogodd dau aelod y cam o ddileu’r amod a gwnaeth un aelod atal ei bleidlais.

PENDERFYNWYD – y bydd yr awdurdod yn cadw’r amod trwyddedu cerbydau hacni a llogi preifat a fanylir ym mharagraff 1.1. yr adroddiad.

## 18 : CYNGHRAIR CERBYD HACNI CAERDYDD – CAIS AM GYDNABYDDIAETH

Dywedwyd wrth aelodau bod cymdeithas o’r enw Chynghrair Cerbyd Hacni Caerdydd wedi gwneud cais am gydnabyddiaeth gan yr awdurdod trwyddedu fel corff trwyddedig sy’n cynrychioli gyrwyr cerbydau hacni trwyddedig yng Nghaerdydd. Cafodd y gymdeithas newydd ei sefydlu ac atodwyd copi o'i chyfansoddiad i'r adroddiad yn Atodiad A. Gofynnwyd i aelodau ystyried y cais a phenderfynu arno.

Nododd swyddogion ei bod yn anodd yn aml cyrraedd cydsyniad o fewn y diwydiant gan ei fod yn cynnwys llawer o unigolion sydd â'u safbwyntiau eu hunain o ran sut y mae’r fasnach yn gweithredu. Mewn ymgais i ymgysylltu â’r fasnach, mae'r Awdurdod wedi ymdrechu i hyrwyddo sefydlu cymdeithasau cynrychioladol. Ar hyn o bryd, cyfathrebir trwy Fforymau Gyrwyr Tacsi chwarterol Caerdydd yn bennaf.

Byddai cydnabod sefydliad masnachu cynrychioladol sydd wedi'i gyfansoddi yn sicrhau y gall y gymdeithas wneud cynigion i'r awdurdod ar newidiadau i'r polisi trwyddedu; a’i bod yn cael rhagor o fanylion gan adroddiadau drafft gan Bwyllgor Diogelu'r Cyhoedd i wneud sylwadau arnynt.

Sicrhawyd bod yr adroddiad ar gael i gynnig sylwadau arno ac anfonwyd copïau at gynrychiolwyr masnachol yn ogystal â’i gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Mae manylion yr ymatebion wedi eu hatodi i’r adroddiad yn Atodiad B.

Croesawodd y Cadeirydd Tarik Majid, Is-gadeirydd; Abdul Hassan; Dirprwy Gadeirydd; Eva Dukes, Ysgrifennydd; Yusef Jama o Unite; a Hamed Hassan, Unite; i’r cyfarfod. Gwahoddwyd cynrychiolwyr y gymdeithas i annerch y Pwyllgor.

Cydnabu Tarik Majid y gellid gwella’r cyfathrebu rhwng y fasnach a’r awdurdod. Roedd hefyd materion y dylid mynd i’r afael â nhw yn ôl y fasnach ac nid oes modd o wneud hyn ar hyn o bryd. Felly, roedd amgen cymdeithas yn cynrychioli pob gyrrwr. Mae Cynghrair Cerbyd Hacni Caerdydd wedi ymgysylltu ag amrywiaeth o gymunedau a gofyn iddynt i enwebu cynrychiolwyr i fod yn aelodau o Gynghrair Cerbyd Hacni Caerdydd fel y bydd pawb yn cael eu cynrychioli a bod â ‘llais wrth y bwrdd’.

Mewn ymateb i gwestiynau’r Pwyllgor, dywedodd Mr Majid fod gan Gynghrair Cerbyd Hacni Caerdydd 212 o aelodau yn bresennol. Bydd y gymdeithas yn cynrychioli unrhyw yrrwr trwyddedig nid gyrwyr cerbyd hacni yn unig. Cydnabuwyd y gymdeithas yn ffurfiol fel cangen Unite ond nid oedd yn rhaid bod yn aelod o Unite nac o unrhyw undeb arall.

Trafododd y Pwyllgor a chynrychiolwyr Cynghrair Cerbyd Hacni Caerdydd rai newidiadau a wnaed i’r cyfansoddiad gyda'r nod o ystyried y sylwadau a wnaed yn ystod yr ymarfer ymgynghori. Roedd y newidiadau yn ymwneud â chworwm y cyfarfodydd a materion disgyblaeth.

Nododd cynrychiolwyr y gymdeithas hefyd fod y sylwadau wedi'u gwneud ynglŷn â phroblemau o ran ymwybyddiaeth o anableddau o dan yr eitem flaenorol ar yr agenda wedi cyffwrdd â nhw. Rhoddwyd ymrwymiad y bydd y gymdeithas yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Grŵp Mynediad Hawliau Anabledd, ac eraill, i ddatrys rhai o’r problemau y mae defnyddwyr gwasanaeth anabl yn eu hwynebu ac i godi ymwybyddiaeth ymhlith aelodau’r gymdeithas.

PENDERFYNWYD – y caiff y cais am gydnabyddiad gan Gynghrair Cerbyd Hacni Caerdydd fel cymdeithas gynrychioladol ar gyfer gyrwyr trwyddedig yng Nghaerdydd ei gymeradwyo.

19 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.00 pm